

1872



---

Adran y  
Gyfraith a Throseddeg

---

## Adran y Gyfraith a Throseddeg

Lefel B, Adeilad Hugh Owen,

Prifysgol Aberystwyth

Aberystwyth.

Ceredigion


SY23 3DY

☎ +44 (0) 1970 622712

✉ law@aber.ac.uk

📘 @AberystwythLawandCriminology

🐦 @ALSABER



**Fframwaith  
Rhagoriaeth  
Addysgu**

### Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Gorffennaf 2020), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Croeso

Dysgwyd y Gyfraith yn Aberystwyth ers 1901. Mae gan yr Adran draddodiad balch o ysgolheictod ac ymchwil ac mae hi wedi paratoi cenedlaethau o bobl o bob cwr o'r byd am yrfaoedd proffesiynol a bywyd yn gyffredinol. Mae rhai o gyfreithwyr, gwleidyddion ac ysgolheigion mwyaf nodedig Cymru, Prydain a thu hwnt wedi astudio yma.

Bu'n Adran ddeinamig a blaengar erioed, ac mae ychwanegu Troseddeg at ein rhengoedd wedi ein rhoi mewn sefyllfa i sefydlu Adran y Gyfraith a Throseddeg lewyrchus yn yr oes sydd ohoni, ar gampws Penglais y Brifysgol, dafliaid carreg o fae trawiadol Ceredigion.

Os dewch i astudio yma, byddwch yn profi amgylchedd cefnogol fydd yn eich ysgogi ac a fydd yn rhoi boddhad i chi mewn adran a chanddi hunaniaeth benodol, profiad helaeth, addysgu rhagorol a gweithgarwch ymchwil deinamig, heb sôn am gefnogaeth llyfrgell a darpariaeth TG ardderchog.

Yn fwy na dim, byddwch yn cael eich dysgu a'ch arwain gan gymuned o ysgolheigion fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar eich cynorthwyo i lwyddo a gwireddu eich potensial. Nid trwy ddamwain y dyfarnwyd Prifysgol y Flwyddyn am ansawdd ei dysgu i Brifysgol Aberystwyth am ddwy flynedd yn olynol (Canllaw Prifysgolion Da, The Times a Sunday Times 2018 & 2019) ac fe'i hanrhydeddwyd â theitl Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru yng Nghannllaw Prifysgolion Da, The Times a Sunday Times, 2020.

Yn ogystal ag ansawdd dysgu eithriadol, mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig profiad myfyriwr sy'n cael ei barchu'n fawr gan ei myfyrwyr. Am dair blynedd, gosodwyd y Brifysgol yn y safle uchaf yng Nghymru a Lloegr am fodlonrwydd myfyrwyr.

Gall israddedigion astudio'r gyfraith neu droseddeg fel un pwnc neu gyda'i gilydd, neu eu cyfuno â phynciau eraill. Cynigiwn hefyd raddau arbenigol megis Cyfraith Hawliau Dynol a Throseddeg a Seicoleg Droseddol.

Mae pob un o'n cynlluniau gradd yn y gyfraith yn cynnig sylfaen dda ar gyfer ymarfer y gyfraith. Maent yn raddau cymhwysol yn y gyfraith ar gyfer Cwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar (i'r rhai sy'n bwriadu bod yn fargyfreithwyr) a'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (i'r rhai sy'n bwriadu bod yn gyfreithwyr). Bydd y graddau hyn yn llwyfan ardderchog i'r rheiny yn eich plith sy'n dymuno paratoi am Arholiad Cymhwysio Cyfreithwyr newydd, a bwriadwn gyflwyno cyrsiau israddedig ac uwchraddedig newydd fydd wedi'u hanelu at baratoi myfyrwyr yn drwyadl am y llwybr newydd hwn i gymhwyso yn gyfreithiwr.

A minnau wedi bod yn ymarferydd cyfreithiol ers dros ddeng mlynedd ar hugain, rwy'n deall gwerth meithrin sgiliau a phrofiad ymarferol i fyfyrwyr yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Yn ogystal â dysgu academiaidd rhagorol, mae'r adran yn cynnig llawer o gyfleoedd i wneud hyn. Ymhlith y rhain y mae ein Clinig Cyfraith Teulu lle gall myfyrwyr wneud gwaith achos dan gyfarwyddyd cyfreithiwr cymwysedig, ein cymdeithas ymryson weithgar lle gall myfyrwyr feithrin ac ymarfer eu sgiliau eirioli a pharatoi achos, a chyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer ein

prosiect ymchwil Dewis/Choice sy'n torri tir newydd wrth ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phwnc sy'n prysur ddatblygu'n uchel ei broffil, sef cam-drin yr henoed.

Mae diddordebau ac arbenigedd ein staff yn ymwneud ag ystod eang o bynciau. Bydd llawer yn cyfrannu at ddadleuon a gwaith llunio polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, sy'n cynnwys cydweithio â'r Undeb Ewropeaidd, y Cenhedloedd Unedig, Cyngor Ewrop, a llywodraethau a chorfforaethau canolog a datganoledig. Rhoddir pwyslais cryf ar Hawliau Dynol ac amrywiaeth, a chynigiwn gyrsiau hawliau dynol i israddedigion ac uwchraddedigion fel ei gilydd. Mae materion sy'n ymwneud â rhywedd, diwylliant, iaith, ieuenctid, cyn-filwyr a'u teuluoedd, a henaint yn themâu pwysig yng ngwaith yr adran. Mae cyfraith busnes a masnach hefyd yn elfennau cryf yn ein gwaith dysgu, yn cynnwys cwrs LLB arbenigol mewn cyfraith busnes.

Gall dewis Prifysgol fod yn brofiad dyrys. Ceir dewis eang, ac nid yw bob amser yn rhwydd i ddewis yr un sy'n iawn i chi. Ar ôl dweud hynny, os oes gennych ddiddordeb mewn astudio'r Gyfraith neu Droseddeg mewn Prifysgol sefydledig mewn rhan brydferth ac unigryw o'r wlad, gall Aberystwyth gynnig ichi adran ddeinamig a chyfeillgar sy'n canolbwyntio ar ansawdd ei dysgu.

Edrychaf ymlaen at eich croesawu i Aberystwyth.

**Yr Athro Emyr Lewis**

**Pennaeth Yr Adran**





---

# Cyrsiau Cyfraith

Cyfraith

Cyfraith Busnes

Cyfraith Ewropaidd

Cyfraith Droseddol

Cyfraith Statws Uwch

Cyfraith a Throseddeg

Iawnderau Dynol

---





*Cerflun Lady Justice, The Old Bailey, Llundain.*

# Pam astudio y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth?

Adran y Gyfraith a Throseddeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yw un o Adrannau y Gyfraith hynaf a mwyaf sefydledig Cymru. O ddechrau eich gradd, byddwch yn elwa o fynediad at ein cysylltiadau sefydledig â phobl broffesiynol leol ym maes y gyfraith ac yn cael eich annog i ymwneud â chleientiaid a gwaith achos go-iawn dan arweiniad a chyda cefnogaeth ein tîm academiaidd uchel ei barch. Gall myfyrwyr hefyd elwa o adnoddau heb eu hail megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru (un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y DU), sydd o fewn ychydig funudau yn unig o bellter cerdded.


## Pam Aberystwyth?

Mae gennym dros 100 mlynedd o brofiad dysgu, ac rydym yn cyfuno dulliau modern o ddysgu ac yn eich annog i feithrin sgiliau proffesiynol drwy gydol eich gradd. Dyma un o'r rhesymau y dyfarnwyd gwobr Prifysgol y Flwyddyn am Ansawdd y Dysgu i'r Brifysgol am ddwy flynedd yn olynol gan Ganllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times 2018 a 2019.

Ar ben hyn, byddwch hefyd yn dysgu oddi wrth ddarlithwyr sy'n adnabyddus yn rhyngwladol ac sydd yn cyfrannu at waith ymchwil arloesol. Mae'r gwaith ymchwil a wneir yn yr Adran yn creu amgylchedd dysgu ysgogol ac yn rhoi'r cyfle i chi gyfrannu at ddadleuon ehangach o ran y gyfraith

## Eich dyfodol: Cyflogadwyedd

Mae'r ffigurau a ryddhawyd ym Mehefin 2018 gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) yn dangos bod 96.8% o'n graddedigion cyntaf, amser llawn un ai wedi mynd i weithio neu astudio ymhellach chwe mis ar ôl graddio o Brifysgol Aberystwyth yn 2017.



## Y Clinig Cyfraith Teulu

Mae'r clinig, a oedd ar y rhestr fer ar gyfer 'Gwobr LawWorks Cymru 2018', yn cynnig cyngor cyfreithiol, cyfrinachol am ddim mewn cyfraith teulu a phlant, sy'n faes y gall pobl ei chael hi'n anodd i ganfod a fforddio gwasanaethau cyfreithiol eraill ynddo. Ar yr un pryd, mae'r clinig yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr gael profiad gwerthfawr o fywyd go-iawn ac i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu mewn sefyllfa go-iawn. Mae gwaith y clinig yn cael ei oruchwylio gan gyfreithiwr profiadol, er mwyn sicrhau bod y cyngor cyfreithiol o safon uchel drwyddo draw.

## Prosiect Cyswllt Cyfreithiol Cyn-filwyr

Sefydlwyd Cyswllt Cyfreithiol y Cyn-filwyr yn 2015 i fynd i'r afael â'r diffyg cyngor cyfreithiol yng Nghymru. Mae'r prosiect yn gwahodd cyfreithwyr a myfyrwyr y gyfraith i helpu cyn-filwyr a'u teuluoedd i dderbyn cyngor cyfreithiol am ddim. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo cyn-filwyr a'u teuluoedd i ailymuno â chymdeithas drwy ddarparu gwasanaeth cyfeirio cynhwysfawr ar gyfer cyngor cyfreithiol a gwasanaethau cynghori ehangach nad ydynt yn rhai cyfreithiol. Caiff y prosiect ei redeg ledled y wlad ar-lein, drwy'r ffôn, Skype ac wyneb yn wyneb

## Sgiliau cyflogadwyedd i weithwyr proffesiynol

Mae'r modiwl hwn yn cyfuno gwasanaeth cymuned ag astudiaethau academiaidd er mwyn cyfoethogi'r dysgu, dysgu cyfrifoldeb sifil a chryfhau'r gymuned leol sydd â'i gwreiddiau yn hanes, amgylchedd, diwylliant ac economi unigryw Ceredigion. Mae'n cynnwys cyfleoedd am leoliadau dwyieithog o safon uchel a fydd yn ennill credydau i chi gyda chyflogwyr lleol blaenllaw.



# Cyfraith

## LLB (Anrh)

Bydd astudio ein gradd, sy'n cael ei chydabod gan Fwrdd Safonau'r Bar a chan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, yn rhoi'r cyfle ichi astudio'r gyfraith, sut mae'n gweithredu, a'r berthynas rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder mewn cymdeithas.

Byddwch yn astudio'r pynciau cyfreithiol sylfaenol, a hefyd yn cael cyfle i deilwra'ch gradd yn unol â'ch diddordebau chi eich hun, o blith amrywiaeth o fodiwlau dewisol sy'n trafod meysydd cyfoes ac arbenigol o'r gyfraith.

Mae'r Adran yn cynnig rhychwant o bynciau sy'n amrywio o'r rheini sydd â ffocws cryf ar gyfraith ac arferion cyfredol (cyfraith 'y llythyren ddu') i'r rheini sydd â sylfaen fwy cymdeithasegol a damcaniaethol. Felly mae'r radd yn cynnwys trafodaethau ymarferol iawn ynghylch p'un a yw unigolyn wedi torri'r gyfraith ai peidio, yn ogystal â myfyrdodau mwy damcaniaethol ynghylch natur y gyfraith a sut y gellir ei newid.

Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i'r rheini sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a thu hwnt, ac maent yn Raddau Cymwys yn y Gyfraith at y dibenion hyn.

Dyma rai o'r cyfleoedd arbenigol a gynigir yn Aberystwyth i fyfyrwyr y Gyfraith:

- bod yn rhan o un o adrannau y Gyfraith fwyaf profiadol ac uchaf eu parch yng Nghymru
- astudio amrywiaeth o fodiwlau gan gynnwys profiad gwaith
- cyfle i astudio troseddeg ar y cyd â'r gyfraith
- cyfle i ymuno â'r gymdeithas ymryson sy'n cystadlu mewn nifer o gystadlaethau yn ystod y flwyddyn academaidd, ac sy'n cynnal rhai hefyd
- arbenigedd mewn cyfraith trosedd, cyfraith busnes, cyfraith Ewrop a hawliau dynol
- cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac astudio cyfraith arbennig Cymru.

### Cyflogadwyedd

Mae gradd yn y Gyfraith yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer ystod o yrfaeodd. Mae graddedigion diweddar yn llwyddo mewn troseddeg, rheoli ariannol, busnes, adnoddau dynol, cysylltiadau rhyngwladol, newyddiaduraeth ac addysg. Drwy gydol eich hyfforddiant byddwch yn datblygu cyfoeth o sgiliau cyfreithiol craidd a sgiliau eraill y gallwch eu trosglwyddo'n hawdd i unrhyw sefyllfa waith neu broffesiynol neu astudiaethau uwchraddedig. Mae'r radd hon yn sylfaen ragorol yn y gyfraith i'r rhai sy'n bwriadu sefyll Arholiad Cymhwyso'r Cyfreithwyr.

## Ffeithiau Allweddol

|                                                                                     |                         |
|-------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|
|  | <b>Math o radd:</b> LLB |
|  | <b>Cod UCAS :</b> M100  |
|  | <b>Hyd:</b> 3 blynedd.  |

|                                                                                     |                                                                                                                                                                                                   |
|-------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  | Mae'r LLB ar gael hefyd fel cwrs 2-flynedd LLB cyflymedig i raddedigion (M101) yn achos y rheini sydd eisoes â gradd Baglor mewn pwnc arall. Rydym hefyd yn cynnig gradd BA yn y Gyfraith (M103). |
|  | Mae'r radd yma hefyd ar gael fel cwrs 4 mlynedd gyda blwyddyn sylfaen.                                                                                                                            |

## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Contract Law
- Criminal Law\*
- Legal and Criminal Justice Systems
- Legal Skills and Research
- Tort.

### Yr ail flwyddyn:

- Public Law\*
- European Law\*.

### Y drydedd flwyddyn:

- Equity and Trusts\*
- Land Law.

Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

\*hefyd ar gael yn rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.



# Cyfraith Busnes

## LLB (Anrh)

Mae sylfaen yn y gyfraith yn hanfodol ar gyfer rhedeg unrhyw fusnes yn llwyddiannus. P'un a ydych yn bwriadu rhedeg eich busnes eich hun, neu gynghori'r sector masnachol, mae'r radd mewn cyfraith busnes yn gyfle i ddeall cyfrifoldeb corfforaethol, strwythurau rheoli a chyfraith cyflogaeth.

Ar y radd hon byddwch yn canolbwyntio eich astudiaethau ar fodiwlau sy'n ymwneud â chyfraith masnach, cyfraith cwmnïau ac atebolrwydd corfforaethol. Yn ogystal â rhoi sylfaen ar gyfer gyrfaodd yn y sector masnachol, mae hefyd yn rhoi sylfaen ar gyfer gyrfa i'r dyfodol mewn adnoddau dynol, rheoli busnes a chynghori busnesau.

Ar y graddau thematig hyn, bydd y flwyddyn astudio gyntaf yr un peth â'r radd LLB yn y Gyfraith a bydd yr ail a'r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y thema dan sylw.

Mae blwyddyn gyntaf y cynlluniau gradd LLB thematig yn rhoi sylfaen ichi ar gyfer astudio'r gyfraith, gyda ffocws ar y sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ddeall deunyddiau cyfreithiol a'r system gyfreithiol, a hefyd egwyddorion allweddol y pynciau cyfreithiol craidd, gan gynnwys cyfraith trosedd ac anghydfodau sifil mewn contractau a chamwedd.

Mae'r ail a'r drydedd flwyddyn yn adeiladu ar yr egwyddorion allweddol hyn, ond hefyd yn caniatáu ichi archwilio meysydd eraill o'r gyfraith. Gallwch hefyd deilwra eich dewis o fodiwlau dewisol yn unol â'ch diddordebau a'ch dyheadau o ran eich gyrfa.

Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i'r rheini sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a thu hwnt, ac yn Raddau Cymwys yn y Gyfraith at y dibenion hyn.

### Cyflogadwyedd

Mae gradd yn y Gyfraith yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer ystod o yrfaodd. Mae graddedigion diweddar yn llwyddo mewn rheoli ariannol, busnes ac adnoddau dynol. Wrth gwblhau'r radd hon, bydd gennych allu i'w ddefnyddio yn y byd go-iawn, a fydd yn eich galluogi i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

72%

ar gael drwy'r Gymraeg

## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

- Introduction to Criminology
- Criminal Law\*
- Legal and Criminal Justice Systems
- Legal Skills and Research
- Commercial Law
- Company Law
- Labour law
- Human Rights
- Employability Skills for Professionals
- Principles of Evidence
- Public Law\*
- European Law\*
- Equity and Trusts\*
- Land Law.

Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

\*hefyd ar gael yn rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ffeithiau Allweddol

Math o radd: LLB

Cod UCAS : M140

Hyd: 3 blynedd.

# Cyfraith Ewropaidd

## LLB (Anrh)

Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd wedi newid yn sylweddol. Mae'r gyfraith yn Ewrop hefyd yn cynnwys agweddau eraill ar reoliadau cyfreithiol gan gynnwys, yn bwysicaf oll, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol.

Bydd y radd hon yn rhoi cyfle ichi archwilio natur newidiol perthynas y Deyrnas Unedig ag Ewrop a'i datblygiad yn y dyfodol. Mae'n rhoi sylfaen ar gyfer gyrfaodd mewn newyddiaduraeth, negodi pan fo cyfreithiau'n gwrthdaro â'i gilydd, ac mewn gwleidyddiaeth.

Ar y graddau thematig hyn, bydd y flwyddyn astudio gyntaf yr un peth â'r radd LLB yn y Gyfraith a bydd yr ail a'r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y thema dan sylw.

Mae blwyddyn gyntaf y cynlluniau gradd LLB thematig yn rhoi sylfaen ichi ar gyfer astudio'r gyfraith, gyda ffocws ar y sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ddeall deunyddiau cyfreithiol a'r system gyfreithiol, a hefyd egwyddorion allweddol y pynciau cyfreithiol craidd, gan gynnwys cyfraith trosedd ac anghydfodau sifil mewn contractau a chamwedd.

Mae'r ail a'r drydedd flwyddyn yn adeiladu ar yr egwyddorion allweddol hyn, ond hefyd yn caniatáu ichi archwilio meysydd eraill o'r gyfraith. Gallwch hefyd deilwra eich dewis o fodiwlau dewisol yn unol â'ch diddordebau a'ch dyheadau o ran eich gyrfa.

Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i'r rheini sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a thu hwnt, ac yn Raddau Cymwys yn y Gyfraith at y dibenion hyn.

### Cyflogadwyedd

Mae Cyfraith Ewropeaidd yn rhoi'r cyfle ichi ddysgu am systemau cyfreithiol eraill, cael blas ar ddiwylliant cyfreithiol arall, gwella eich sgiliau mewn iaith Ewropeaidd a meithrin cysylltiadau rhyngwladol. Gan ddibynnu ar eich sgiliau ieithyddol, gallwch

## Ffeithiau Allweddol

Math o radd: LLB

Cod UCAS : M121

Hyd: 3 blynedd.

## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

- Criminal Law\*
- Legal and Criminal Justice Systems
- Legal Skills and Research
- Crime Control and Prevention
- Commercial Law
- Company Law
- Family and Child Law
- Humanitarian Law
- Labour Law
- Employability Skills for Professionals
- Human Rights
- Police, Policing and Society
- Principles of Evidence
- Public Law\*
- European Law\*
- Equity and Trusts\*
- Land Law.

Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

\*hefyd ar gael yn rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.



# Cyfraith Trosedd

## LLB (Anrh)

Bydd y radd hon yn rhoi cyfle ichi astudio agweddau ar y system cyfraith trosedd mewn mwy o fanylder, gan gynnwys agweddau fel rheoleiddio ymddygiad troseddol ac effeithiolrwydd mecanweithiau cosbi ac adsefydlu. Mae modiwlau megis Evidence, Criminal Justice and the Penal System ac Introduction to Criminology yn cael eu cynnig ar hyn o bryd yn yr Adran.

Bydd y cynllun hwn yn rhoi sylfaen werthfawr ichi ar gyfer gyrfa mewn gwaith cyfraith trosedd, naill ai fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr, ond hefyd mewn meysydd eraill yn y system cyfiawnder troseddol gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf.

Ar y graddau thematig hyn, bydd y flwyddyn astudio gyntaf yr un peth â'r radd LLB yn y Gyfraith a bydd yr ail a'r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y thema dan sylw.

Mae blwyddyn gyntaf y cynlluniau gradd LLB thematig yn rhoi sylfaen ichi ar gyfer astudio'r gyfraith, gyda ffocws ar y sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ddeall deunyddiau cyfreithiol a'r system gyfreithiol, a hefyd egwyddorion allweddol y pynciau cyfreithiol craidd, gan gynnwys cyfraith trosedd ac anghydfodau sifil mewn contractau a chamwedd.

Mae'r ail a'r drydedd flwyddyn yn adeiladu ar yr egwyddorion allweddol hyn, ond hefyd yn caniatáu ichi archwilio meysydd eraill o'r gyfraith. Gallwch hefyd deilwra eich dewis o fodiwlau dewisol yn unol â'ch diddordebau a'ch dyheadau o ran eich gyrfa.

Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i'r rheini sy'n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a thu hwnt, ac yn Raddau Cymwys yn y Gyfraith at y dibenion hyn.

### Cyflogadwyedd

Mae gradd yn y Gyfraith yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer ystod o yrfaoedd. Mae rhai o lwybrau gyrfaoedd cyffredin ein graddedigion yn cynnwys: proffesiynau'r gyfraith, adrannau cynghori'r llywodraeth, ymchwilio i gyfiawnder a chymorth i ddioddefwyr, plismona, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf. Wrth gwblhau'r radd hon, bydd gennych allu i'w ddefnyddio yn y byd go-iawn, a fydd yn eich galluogi i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

### Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** LLB

 **Cod UCAS :** M131

 **Hyd:** 3 blynedd.

 72% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

- Criminal Law\*
- Legal and Criminal Justice Systems
- Legal Skills and Research
- Crime Control and Prevention
- Introduction to Criminology
- Commercial Law
- Company Law
- Criminal Justice Placement
- Criminal Justice and the Penal System
- Drugs and Crime
- Family and Child Law
- Employability Skills for Professionals
- Humanitarian Law
- Labour law
- Human Rights
- Police, Policing and Society
- Principles of Evidence
- Public Law\*
- European Law\*
- Equity and Trusts\*
- Land Law.

Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

*\*hefyd ar gael yn rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.*

# Cyfraith Statws Uwch

## LLB (Hons)

Lluniwyd gradd LLB y Gyfraith Statws Uwch ym Mhrifysgol Aberystwyth er mwyn gwella eich gobeithion o ran gyrfa drwy gwblhau'r cwrs mewn dwy flynedd. Mae'r cwrs hwn, a ddysgir yn adran y gyfraith hynaf a mwyaf sefydledig Cymru, yn heriol ac yn gyffrous. Mae Gradd LLB y Gyfraith Statws Uwch ar gael i'r rheini a chanddynt eisoes radd Baglor mewn pwnc arall.

Mae Gradd LLB y Gyfraith Statws Uwch yn cael ei chynabod gan Fwrdd Safonau'r Bar a chan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, gan ddarparu llwybr uniongyrchol i broffesiwn y gyfraith. Fel myfyriwr ar y cwrs hwn, byddwch yn elwa o brofiad a brwdfrydedd ein staff arbenigol. Mae llawer ohonynt wedi bod yn gyfreithwyr - gan roi gwedd ymarferol i'ch astudiaethau o ddamcaniaeth. Ethos Adran y Gyfraith a Throseddeg yw meithrin dyfeisgarwch a bydd eich gallu i feddwl y tu allan i'r bocs yn eich galluogi i raddio â galluoedd yn y byd go-iawn, fydd yn llywio eich dyfodol a datblygiad eich gyrfa.

Cynlluniwyd gradd LLB y Gyfraith Statws Uwch er mwyn ateb y galw ymhlith cyflogwyr a byddwch yn cael eich dysgu gan bobl broffesiynol brofiadol ym myd y gyfraith a'r byd academiaidd. Mae'r tîm addysgu yn Adran y Gyfraith a Throseddeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cyfrannu at waith sefydliadau mawr, e.e. GRETA, Comisiwn Cefn Gwlad Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Swyddfa Uchel Comisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Dynol.

Wrth raddio, byddwch yn gymwys i barhau eich hyfforddiant galwedigaethol ar Gwrs Ymarfer y Gyfraith, neu Gwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar. Ar ben hyn, byddwch yn cael eich eithrio o rai arholiadau proffesiynol drwy ddewis y modiwlau perthnasol.

### Cyflogadwyedd

Gall y sgiliau a'r wybodaeth y byddwch yn eu meithrin yma agor drysau gyrfaoedd mewn swyddi yn y maes cyfreithiol a thu hwnt.

Mae llawer o'n graddedigion yn dechrau ar swyddi fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr; mae eraill yn defnyddio'u gradd fel sbardun ar gyfer gradd mewn rheolaeth, busnes neu'r gwasanaeth sifil.

Mae ein gwasanaethau cymorth gyrfaoedd yn cynnwys:

- Gweithdai ar gyflogadwyedd, sgysiau gan gyflogwyr, digwyddiadau pwrpasol a ffeiriau gyrfaoedd
- Cyngor ac arweiniad personol gan Gynghorwyr Gyrfaoedd cymwys
- Cymorth i ddod o hyd i swyddi, interniaethau, lleoliadau gwaith a chyfleoedd i wirfoddoli
- Mynediad at adnoddau gwybodaeth ar ystod eang o bynciau rheoli gyrfa
- Cyngor ac arweiniad ar astudiaethau uwchraddedig a chyllid.

## Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** LLB

 **Cod UCAS :** M140

 **Hyd:** 2 blynedd.

## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy'n amlinellu'r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Contract Law
- Criminal Law\*
- Legal and Criminal Justice Systems
- Legal Skills and Research
- Tort.

### Yr ail flwyddyn:

- Equity and Trusts\*
- Public Law\*
- European Law
- Land Law

Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

*\*hefyd ar gael yn rhannol neu'n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.*

# Cyfraith a Throseddeg

LLB (Anrh)

93%

ar gael  
drwy'r  
Gymraeg

Mae’r cwrs hwn yn berffaith ar gyfer y rhai sydd â’u bryd ar yrfa uchelgeisiol yn y gyfraith yn yr 21ain ganrif. Bydd y cwrs heriol a chyffrous hwn yn Adran y Gyfraith a Throseddeg yn eich cyflwyno i hanfodion y Gyfraith yn ogystal â modiwlau Troseddeg fydd yn cyflwyno’r damcaniaethau a’r dadleuon sy’n berthnasol i drosedd, gwyredd, natur bod yn ddioddefwr, y gyfraith a chosb.

Byddwch yn elwa o brofiad a brwdfrydedd ein staff arbenigol. Mae llawer ohonynt wedi bod yn fargyfreithwyr a chyfreithwyr, ac felly’n rhoi gwedd ymarferol ar eich astudiaethau damcaniaethol.

Mae’r radd LLB ddiddorol hon yn cyfuno ein harbenigedd yn y Gyfraith a Throseddeg er mwyn eich paratoi ar gyfer cyflogaeth ym mhroffesiwn y gyfraith a’r system cyfiawnder troseddol. Mae’n Radd Gymwys yn y Gyfraith sy’n manteisio ar ein harbenigedd sefydledig yn y Gyfraith a Throseddeg, ac yn eich galluogi chi i gael golwg amlddisgyblaethol ar droseddu. Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i’r rheini sy’n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a thu hwnt, ac maent yn Raddau Cymwys yn y Gyfraith at y dibenion hyn.

Amcan y cynllun hwn yw sicrhau y bydd gan y myfyrwyr, ar ôl camau sylfaenol y Flwyddyn Gyntaf, ryddid llwyr i ddewis, heb fawr neu ddim modiwlau gorfodol o’r Ail Flwyddyn ymlaen.

Cewch gyfle drwy gydol y cwrs i ymarfer eich sgiliau wrth astudio. Mae lleoliadau gwaith ar gael ar gyfer y rhaglen hon – rydym yn anfon ein myfyrwyr at gyflogwyr lleol perthnasol, er mwyn ichi gael profiad gwaith ochr yn ochr ag astudio’r gwaith theori. Fe’ch anogir i roi eich sgiliau ar waith yn ein Clinig Cyfraith Teulu er mwyn ichi allu helpu pobl a chael eich blas cyntaf ar y gyfraith ar waith.

Byddwch yn cael eich dysgu gan dîm o arbenigwyr y mae eu gwybodaeth a’u harbenigedd yn perthyn yn agos i gynnwys y modiwlau ar y cwrs. Mae’r tîm yn cynnwys academyddion hŷn ac ymarferwyr proffesiynol sydd â phrofiad yn y diwydiant.

Cyflogadwyedd

Mae gradd yn y Gyfraith yn gymhwyster gwerthfawr ar gyfer ystod o yrfaoedd. Mae graddedigion diweddar yn llwyddo mewn troseddeg, rheoli ariannol, busnes, adnoddau dynol, cysylltiadau rhyngwladol, newyddiaduraeth ac addysg. Wrth gwblhau’r radd hon, bydd gennych allu i’w ddefnyddio yn y byd go-iawn, a fydd yn eich galluogi i lywio eich dyfodol a datblygu gyrfa deilwng.

Ffeithiau Allweddol

Math o radd: LLB

Cod UCAS : MM91

Hyd: 3 blynedd.

## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy’n amlinellu’r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

- Introduction to Criminology
- Criminal Law\*
- Legal and Criminal Justice Systems
- Legal Skills and Research
- Crime Control and Prevention
- Commercial Law
- Company Law
- Criminal Justice Placement
- Criminal Justice and the Penal System
- Employability Skills for Professionals
- Drugs and Crime
- Family and Child Law
- Humanitarian Law
- Labour law
- Human Rights
- Police, Policing and Society
- Principles of Evidence
- Public Law\*
- European Law\*
- Equity and Trusts\*
- Land Law.

Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

\*hefyd ar gael yn rhannol neu’n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.





# Iawnderau Dynol

## LLB (Anrh)

Mae’r astudiaeth o iawnderau dynol yn aml yn codi uwchlaw ffiniau cenedlaethol, ac efallai y bydd weithiau’n gwrthdaro â syniadau gwladwriaethau unigol o’r hyn ddylai gael ei amddiffyn fel hawl. Mae’r cynllun gradd hwn yn caniatáu ichi ganolbwyntio ar faterion sy’n ymwneud â diogelu hawliau dynol ac effeithiolrwydd mecanweithiau rhyngwladol ym maes hawliau dynol.

Gall y radd arwain at gyfleoedd am gyflogaeth gyda sefydliadau hawliau dynol fel Amnest Rhyngwladol a phob math o sefydliadau anllywodraethol fel y Cenhedloedd Unedig. Mae graddedigion diweddar wedi cael gwaith ym meysydd eiriolaeth hawliau dynol, hawliau mewnfudo a diogelu cydraddoldeb.

Ar y graddau thematig hyn, bydd y flwyddyn astudio gyntaf yr un peth â’r radd LLB yn y Gyfraith a bydd yr ail a’r drydedd flwyddyn yn canolbwyntio’n fwy penodol ar y thema dan sylw.

Mae blwyddyn gyntaf y cynlluniau gradd LLB thematig yn rhoi sylfaen ichi ar gyfer astudio’r gyfraith, gyda ffocws ar y sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ddeall deunyddiau cyfreithiol a’r system gyfreithiol, a hefyd egwyddorion allweddol y pynciau cyfreithiol craidd, gan gynnwys cyfraith trosedd ac anghydfodau sifil mewn contractau a chamwedd.

Mae’r ail a’r drydedd flwyddyn yn adeiladu ar yr egwyddorion allweddol hyn, ond hefyd yn caniatáu ichi archwilio meysydd eraill o’r gyfraith. Gallwch hefyd deilwra eich dewis o fodiwlau dewisol yn unol â’ch diddordebau a’ch dyheadau o ran eich gyrfa.

Mae ein graddau LLB yn rhoi sylfaen i’r rheini sy’n bwriadu cymhwyso fel cyfreithwyr neu fargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr a thu hwnt, ac yn Raddau Cymwys yn y Gyfraith at y dibenion hyn.

### Cyflogadwyedd

Mae’r radd LLB (Anrh) lawnderau Dynol yn agor drysau gyrfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol yn y proffesiwn cyfreithiol a phroffesiynau sy’n ymwneud â hawliau. Byddwch yn meithrin sgiliau i gael swyddi mewn sefydliadau anllywodraethol, elusennau a chyrff eraill yn y gymdeithas sifil sy’n arbenigo mewn eirioli, amddiffyn, gwybodaeth gyhoeddus ac addysg.

## Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** LLB

 **Cod UCAS :** M990.

 **Hyd:** 3 blynedd.



## Modiwlau

Isod ceir rhestr sy’n amlinellu’r modiwlau craidd y gellir eu hastudio ar y cwrs yma.

- Human Rights
- Introduction to Criminology
- Criminal Law\*
- Legal and Criminal Justice Systems
- Legal Skills and Research
- Crime Control and Prevention
- Commercial Law
- Company Law
- Criminal Justice Placement
- Criminal Justice and the Penal System
- Drugs and Crime
- Employability Skills for Professionals
- Family and Child Law
- Humanitarian Law
- Labour law
- Police, Policing and Society
- Principles of Evidence
- Public Law\*
- European Law\*
- Equity and Trusts\*
- Land Law.

Am ragor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

\*hefyd ar gael yn rhannol neu’n gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.



---

# Cyrsiau Troseddeg

Troseddeg

Troseddeg a Chymdeithaseg

Troseddeg a Seicoleg Droseddol

---



# Troseddeg

## BSc (Anrh)

Mae Troseddeg yn bwnc hynod ddiddorol sy’n astudio ystyr trosedd a pham mae rhai ymddygiadau penodol yn cael eu cyfrif yn rhai troseddol tra nad yw ymddygiadau eraill yn cael eu cyfrif felly. Mae’r pwnc yn archwilio goblygiadau labelu pobl yn droseddwyr a sut mae cymdeithas yn ymateb i ymddygiad troseddol drwy ganfod, cosbi ac adsefydlu troseddwyr. Mae’r pwnc hefyd yn ystyried effaith trosedd ar ddioddefwyr ac ar y gymdeithas yn gyffredinol.

Bydd y BSc mewn Troseddeg yn rhoi ichi’r cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o’r system cyfiawnder troseddol yn y DU yn ehangach, yn ogystal â datblygu sgiliau gwerthuso polisi a deddfwriaeth. Byddwch hefyd yn astudio’r gwaith ymchwil a’r syniadau diweddaraf am drosedd, ymddygiad troseddol a chyfiawnder troseddol. Bydd gennych gyfle i gynnal eich ymchwil eich hun yn y maes hwn, gan fod y radd Droseddeg yn Adran y Gyfraith a Throseddeg yn rhoi sylfaen ichi mewn dulliau ymchwil troseddegol.

Mae cyfleoedd arbenigol yn Aberystwyth ar gyfer Troseddeg yn cynnwys:

- ystod gyffrous o fodiwlau dewisol gan gynnwys profiad gwaith
- cyfuno astudio Troseddeg ag astudio’r Gyfraith neu Seicoleg.

### Cyflogadwyedd

Mae Troseddeg yn cynnig sail academiaidd ragorol ar gyfer gyrfaoedd fel dadansoddwyr trosedd neu gudd-wybodaeth ac amrywiaeth eang iawn o yrfaoedd eraill yn yr heddlu, Gwasanaeth Carchar EM a’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, cyrff cyfiawnder ieuenctid, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol, neu feysydd rheoleiddio fel Cyllid a Thollau EM a safonau masnach.



## Modiwlau

### Y flwyddyn gyntaf:

Ym mlwyddyn gyntaf eich gradd cewch y sylfaen sydd ei hangen arnoch er mwyn gallu astudio Troseddeg. Bydd hyn yn cynnwys archwilio dulliau cymdeithasol o ymwneud â throsedd, a chategoreiddio ymddygiad fel ymddygiad troseddol. Bydd y flwyddyn gyntaf hefyd yn eich cyflwyno i hanfodion y system gyfreithiol a’r system cyfiawnder troseddol, a hefyd i gyfraith trosedd. Byddwch hefyd yn astudio dulliau ymchwil ym maes troseddeg, gan ddatblygu eich dealltwriaeth o sut mae ymchwil yn cael ei chynnal a sut i werthuso’r canfyddiadau.

### Yr ail a’r drydedd flwyddyn

Yn yr ail a’r drydedd flwyddyn cewch gyfle i ddatblygu eich dealltwriaeth o’r pwnc yn unol â’ch diddordebau, gyda chyfleoedd i ddilyn trywydd sy’n canolbwyntio mwy ar y gyfraith wrth astudio troseddeg, neu drywydd sy’n rhoi mwy o bwyslais ar agweddau cymdeithasegol a seicolegol y maes.

# Troseddeg a Chymdeithaseg

## BSc (Hons)

Bydd y radd BSc mewn Troseddeg a Chymdeithaseg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn eich galluogi i werthuso’n feirniadol syniadau, cysyniadau a dulliau o ymwneud â’r pwnc ledled disgyblaethau Troseddeg a Chymdeithaseg.

Bydd y cynllun gradd hwn yn rhoi dealltwriaeth ddofn ichi o’r gymdeithas a throseddolrwydd, a bydd yn eich cyflwyno i safbwyntiau newydd ar anghydraddoldeb cymdeithasol a newid cymdeithasol sy’n digwydd yn lleol ac yn rhyngwladol.

Trwy roi golwg fanwl ar droseddeg o safbwynt cymdeithasegol, bydd ein gradd yn rhoi ichi’r wybodaeth ddatblygedig a’r sgiliau dadansoddi sydd eu hangen er mwyn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a chymdeithasol, yn ogystal â’r system cyfiawnder troseddol. Mae hefyd yn fan cychwyn gwyb ar gyfer astudiaethau pellach.

Dyma rai o’r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael i’n myfyrwyr Troseddeg a Chymdeithaseg yn Aberystwyth:

- y cyfle i wneud profiad gwaith yn rhan o fodiwl dewisol, a fydd yn golygu y byddwch yn llawer mwy cyflogadwy pan fyddwch yn graddio
- cyfuno astudio troseddeg â seicoleg ac archwilio pam mae pobl yn cyflawni troseddau, yn ogystal â pham mae gweithredoedd penodol yn cael eu diffinio fel rhai troseddol

### Cyflogadwyedd

Mae Troseddeg a Chymdeithaseg yn darparu sylfaen academiaidd ardderchog ar gyfer gyrfaoedd yn y sector cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaeth Carchardai EM, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a Chyfiawnder Ieuenctid. Gall cwblhau’r radd hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi troseddau neu gudd-wybodaeth, gofal cymunedol a gwaith cymdeithasol.



## Modiwlau

### Y flwyddyn gyntaf:

Ym mlwyddyn gyntaf eich gradd cewch y sylfaen angenrheidiol er mwyn astudio Troseddeg. Bydd hyn yn cynnwys archwilio ymatebion y gymdeithas i droseddau, a chategoreiddio ymddygiad fel ymddygiad troseddol. Cewch eich cyflwyno i ddulliau ymchwil ym maes troseddeg, gan ddatblygu eich dealltwriaeth o sut y mae ymchwil yn cael ei chynnal a sut i werthuso’r canfyddiadau. Bydd y flwyddyn gyntaf hefyd yn eich cyflwyno i seiliau’r systemau cyfreithiol a chyfiawnder troseddol, ac i gyfraith trosedd.

### Yr ail a drydedd flwyddyn:

Yn yr ail a’r drydedd flwyddyn cewch gyfle i ddatblygu eich dealltwriaeth o’r pwnc yn unol â’ch diddordebau, gyda chyfleoedd i ddilyn dull astudio sy’n rhoi mwy o bwyslais ar agweddau cymdeithasegol a seicolegol y maes, neu ddull sy’n canolbwyntio i raddau mwy helaeth ar astudio troseddeg o safbwynt y gyfraith.

## Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** LLB

 **Cod UCAS :** M900..

 **Hyd:** 3 blynedd.

 **Math o radd:** LLB

 **Cod UCAS :** ML93..

 **Hyd:** 3 blynedd.

# Troseddeg a Seicoleg Droseddol

BSc (Hons)

Mae Troseddeg a Seicoleg Droseddol yn radd thematig ym maes troseddeg a fydd yn rhoi cyfle ichi astudio trosedd ac ymddygiad troseddol o safbwynt seicolegol. Mae’r cynllun gradd hwn yn ymchwilio i ymddygiad a meddyliau troseddwyr, achosion ac effeithiau troseddolrwydd, a sut i atal ymddygiad troseddol, a hynny trwy lens ddeuol troseddeg a seicoleg. Mae hefyd yn ymchwilio i’r defnydd o seicoleg gyfreithiol a fforensig mewn agweddau ar ymchwiliadau’r heddlu a’r system cyfiawnder troseddol.

Bydd ein hacademyddion sy’n weithgar ym maes ymchwil yn eich hyfforddi yn nulliau sylfaenol ymchwil droseddegol, a bydd hyn yn rhoi ichi’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwerthuso astudiaethau damcaniaethol ac empirig yn y maes hwn mewn modd beirniadol.

Dyma rai o’r cyfleoedd arbenigol sydd ar gael yn Aberystwyth ar gyfer myfyrwyr Troseddeg a Seicoleg Droseddol:

- y cyfle i wneud profiad gwaith yn rhan o fodiwl dewisol, a fydd yn cynyddu’ch cyflogadwyedd yn sylweddol wrth ichi raddio
- cyfuno astudio troseddeg â seicoleg ac archwilio pam mae pobl yn cyflawni troseddau, yn ogystal â pham mae gweithredoedd penodol yn cael eu diffinio fel rhai troseddol

Cyflogadwyedd

Mae Troseddeg yn darparu sylfaen academiaidd ardderchog ar gyfer gyrfaodd yn y sector cyfiawnder troseddol, gan gynnwys gyda’r heddlu, Gwasanaeth Carchardai EM a’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, a Chyfiawnder Ieuencid. Gall cwblhau’r radd hefyd gynnig cyfleoedd i weithio ym maes dadansoddi troseddau neu gudd-wybodaeth, gofal cymunedol a gwaith cymdeithasol.

Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** LLB

 **Cod UCAS :** M900..

 **Hyd:** 3 blynedd.

74%

ar gael drwy’r Gymraeg

## Modiwlau

Y flwyddyn gyntaf:

Bydd blwyddyn gyntaf eich gradd yn rhoi ichi’r sylfaen angenrheidiol i astudio Troseddeg. Bydd hyn yn cynnwys archwilio ymatebion y gymdeithas i droseddau, a chategoreiddio ymddygiad fel ymddygiad troseddol. Cewch eich cyflwyno i ddulliau ymchwil ym maes troseddeg, gan ddatblygu eich dealltwriaeth o sut y caiff ymchwil ei chynnal a sut i werthuso’r canfyddiadau. Bydd y flwyddyn gyntaf hefyd yn eich cyflwyno i seiliau’r systemau cyfreithiol a chyfiawnder troseddol, ac i gyfraith trosedd.

Yr ail a drydedd flwyddyn:

Yn yr ail a’r drydedd flwyddyn cewch gyfle i ddatblygu eich dealltwriaeth o’r pwnc ar sail eich diddordebau, gyda chyfleoedd i ddilyn dull astudio sy’n rhoi mwy o bwyslais ar agweddau cymdeithasegol a seicolegol y maes, neu ddull sy’n canolbwyntio i raddau mwy helaeth ar astudio troseddeg o safbwynt y gyfraith.





# Cynlluniau anrhydedd sengl / cyfun

| Anrhydedd Sengl                                                              |      |
|------------------------------------------------------------------------------|------|
| LLB Law (with integrated foundation year) (4 blynedd)                        | M10F |
| BA Law (3 blynedd)                                                           | M103 |
| LLB Law Senior Status Law (2 blynedd)*<br>* for those with qualifying degree | M101 |
| Anrhydedd Cyfun                                                              |      |
| Law and Accounting and Finance (3 blynedd)                                   | MN14 |
| Law and Business and Management (3 blynedd)                                  | MN11 |
| Law and International Politics (4 blynedd)                                   | ML12 |
| Law and French (4 blynedd)                                                   | RM11 |
| Law and German(4 blynedd)                                                    | RM21 |
| Law and Spanish (4 blynedd)                                                  | RM41 |
| Law and Cymraeg Proffesiynol (3 blynedd)                                     | MQ56 |

| Anrhydedd Sengl                                                              |      |
|------------------------------------------------------------------------------|------|
| BSc Criminology (with integrated foundation year) (4 blynedd)                | M90F |
| Anrhydedd Cyfun                                                              |      |
| BSc Psychology and Criminology (3 blynedd)                                   | CM89 |
| BSc Psychology and Criminology (with integrated year in industry) (4blynedd) | A1C6 |



# Astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

Gellir astudio rhai o gynlluniau gradd Adran y Gyfraith a Throseddeg yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ein cynlluniau LLB a BA yn y Gyfraith (ac eithrio M101) gallwch astudio 80 credyd allan o 120 credyd bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ein cynlluniau Troseddeg a'r LLB 2 flynedd gallwch astudio 40 credyd allan o 120 bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae i addysg Gymraeg sawl mantais – nid yn unig y byddwch chi'n rhan o gymuned Gymraeg Prifysgol Aberystwyth, byddwch hefyd yn derbyn tiwtor personol sydd yn medru'r Gymraeg, ac yn derbyn eich addysg mewn grwpiau llai. Mae'r adran yn cynnig nifer o fodiwlau craidd a dewisol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ysgoloriaethau ar gael i'r rheini sy'n ystyried astudio cyfran o'u gradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Am wybodaeth pellach, ewch i'n gwefan: [www.aber.ac.uk/cy/undergrad/before-you-apply/scholarships/welsh-medium/](http://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/before-you-apply/scholarships/welsh-medium/).

Ceir hefyd mwy o wybodaeth drwy wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: [www.colegcymraeg.ac.uk](http://www.colegcymraeg.ac.uk)





# Eich dyfodol

Rydym yn cynnig cyfle i astudio pwnc unigol (cyfraith, troseddeg), neu y pynciau hynny ar y cyd â phynciau eraill – cyfraith gydag is-bwnc, neu droseddeg ar y cyd â Seicoleg. Y mae graddedigion o'r adran wedi mynd ymlaen i gymhwyso fel cyfreithwyr a bargyfreithwyr, heddwesion, gweithwyr cymdeithasol, newyddiadurwyr, bancwyr, athrawon a swyddogion prawf.

Y mae gradd yn y gyfraith neu droseddeg yn uchel ei barch ledled y byd. Sefydlwyd Adran Gyfraith Prifysgol Aberystwyth ym 1901, ac ers hynny rydym wedi addysgu pobol sydd wedi mynd i swyddi nodedig, pobol sydd wedi arloesi yn eu maes yn ogystal â phobol sydd wedi dylanwadu mewn modd gwerthfawr ar y bobol o'u cwmpas, hyd yn oed os na chofnodwyd m'ohonynt yn y llyfrau hanes. Er enghraifft, aeth Iris De Freitas, a raddiodd o'r adran ym 1927, ymlaen i fod y fenyw gyntaf i ymarfer y gyfraith yn y Caribi. Yr oedd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru o 2009-2018 hefyd yn fyfyrwr o Aberystwyth. Ond rydym hefyd wedi addysgu unigolion sydd wedi mynd ymlaen i weithio fel cyfreithwyr mewn cwmnïai bach a mawrion, bargyfreithwyr, athrawon, heddwesion, darlithwyr, newyddiadurwyr, cyflwynwyr teledu, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion prawf, ac hyd yn oed actorion. Fe gychwynon nhw eu taith yn Aberystwyth.





# Proffil myfyriwr

Lois Nash  
LLB y Gyfraith

Dechreuais fy nghwrs israddedig yn y Gyfraith yma yn Aberystwyth yn 2015. Cefais y cyfle i gyflwyno fy nghais ar gyfer y ddoethuriaeth ar ddiwedd fy nghwrs israddedig, ar y pwnc Lladdiad: Gwerthusiad Feirniadol o ddatblygiad Llofruddiaeth, Dynladdiad a Babanladdiad. Byddaf yn edrych ar Papur Comisiwn y Gyfraith yn ymwneud â'r pwnc, er mwyn edrych ar sefyllfa flaenorol y gyfraith, y cynigion roddwyd yn y Papur Comisiwn, a pham nad yw'r gyfraith wedi cael ei ddiwygio, er fod problemau wedi eu darganfod.

Dewisais aros yn Aberystwyth oherwydd y safon dysgu anhygoel. Roeddwn hefyd yn hynod lwcus i ennill Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn arianu y cwrs a chael cyflwyno fy ymchwil yn y Gymraeg.







# Ymchwil

---

Y mae Adran y Gyfraith a Throseddeg yn adran ymchwil weithredol. Bu'r Adran Gyfraith a Throseddeg yn ran o asesiad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (2014). Canfyddodd yr asesiad fod 96.5% o gyhoeddiadau o safon rhyngwladol cydnabyddiedig, a bod 98% o ymchwil yr adran yn gydnabyddiedig yn rhyngwladol.

Yn 2015, derbyniodd y Ganolfan Astudio Heneiddio, Cam-drin ac Esgeulustod grant gan Gronfa'r Loteri Fawr i ymchwilio gwahanol agweddau o heneiddio, perthnasau teuluol, cam-drin a chyfiawnder. Mae'r adran yn ymfalchio mewn ystod eang o arbenigeddau gan gynnwys ymchwil sydd yn ymwneud â'r sawl sydd ar yr ymylon yn gymdeithasol oherwydd ieuenctid neu henaint, hawliau dynol a chyfansoddiadol, datganoli a chyfansoddiad esblygol y Deyrnas Unedig.

Y mae arbenigeddau staff yr adran yn cynnwys aelodaeth o Grwp Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Traffigio Pobloedd, aelod o fwrdd ymchwil Heddlu Dyfed Powys, cyflwyno tystiolaeth i Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru, a chyfeiriadau yn nyfarniadau'r Llys Troseddol Rhyngwladol. Y mae prosiectau diweddar yn cynnwys 'Does nunlle'n debyg i garter: Lleoliad ac Hunan Amddiffyn' (Dr Ffion Llewelyn), "Y Gyfraith ar waith yn Azerbaijan: Gweinidiogion, Cyfreithwyr, Carcharorion Gwleidyddol a Rhoddion Rhyfedd. Peidiwch sôn am Armenia. (Yr Athro Ryszard Piotrowicz) 'Y degfed cydrdaddoldeb, a'i eglurhad o'r naw arall (Dr. Catrin Fflûr Huws) a Diwylliant a Cymorth i Farw (Dr. Glenys Williams).



# Prifysgol Aberystwyth



Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Cyfleusterau  
academaidd



Llyfrgell y  
Gwyddorau  
Ffisegol



Y Ganolfan Chwaraeon



Llety y myfyrwyr



Llyfrgell



Adran Y  
Gyfraith a  
Throsedddeg,  
Adeilad Hugh  
Owen, Lefel B



Canolfan y  
Celfyddydau



Undeb y  
Myfyrwyr



Cyfleusterau  
academaidd





## Bywyd yr adran

### Y Gymdeithas Ymryson

Mae'r Gymdeithas Ymryson yn gyfle gwych i gymryd rhan mewn ffug achosion llys o'r enw ymrysonau. Mae'n gyfle hefyd i ddatblygu'ch dealltwriaeth o'r gyfraith a chylwyno dadleuon cyfreithiol. Mae hefyd yn gyfle i fireinio'ch sgiliau ymchwil a siarad cyhoeddus. Mae'r gymdeithas yn cwrdd yn wythnosol gan gynnig hyfforddiant ymryson ar gyfer ymrysonwyr newydd a profiadol fel ei gilydd.

Mae'r gymdeithas hefyd yn cynnal sawl cystadleuaeth dros y flwyddyn gan gynnwys y Gystadleuaeth Eiriolaeth ar gyfer Ymrysonwyr Newydd, a chystadleuaeth ymryson ar gyfer pob blwyddyn academiaidd. Mae'r gymdeithas hefyd yn trefnu ffug achosion llys, gan gynnwys R v y Tri Mochyn Bach ar gyhuddiad o lofruddiaeth a R v Dorothy o The Wizard of Oz ar gyhuddiad o ddwyn a dynladdiad.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn cymryd ran mewn nifer o gystadlaethau cenedlaethol gan gynnwys Ymryson Cenedlaethol OUP/ICCA National Moot, Cystadleuaeth Ymryson Cenedlaethol Cymru (lle mae Aberystwyth wedi ennill ddwywaith) a Chystadleuaeth Ymryson Cyfraith Feddygol Prifysgol Caerlwr (lle daeth Aberystwyth yn ail).

Cynhelir sawl achos mewn llysoedd go iawn, gan gynnwys Cystadleuaeth Ymryson a gynhaliwyd yn y Goruchaf Lys yn 2016, ac achos yng Nganolfan Cyfiawnder Aberystwyth. Caiff ymrysonau eu barnu gan gyfreithwyr, ac felly cynigiant gyfle gwych i gwrdd ag ymarferwyr y gyfraith.

### Cymedeithas y Gyfraith

Ceir cymdeithas y gyfraith weithredol o fewn yr adran sydd yn trefnu: teithiau i lysoedd a ffeiriau gyrfaol, arwerthiant gwerslyfrau, sgysiau, gweithgareddau cymdeithasol, ac uchafbwynt y flwyddyn sef y ddawns flynyddol <https://www.abersu.co.uk/society/6283/>

### Y Gymdeithas Droseddeg

Y mae'r Gymdeithas Droseddeg yn rhan bwysig o weithgarwch yr Adran, gan gynnig rhaglen amrywiol o nosweithiau ffilm, ymweliadau carchar a sesiynau cefnogi astudio cyn arholiadau. <https://www.abersu.co.uk/society/criminologysociety1/>

### Aberystwyth Law and Criminology Journal

Y mae'r Aberystwyth Law & Criminology Journal yn brosiect sydd yn anelu i ddarparu platform ar gyfer ar arddangos gwaith o'r safon uchaf a gynhyrchwyd gan ein myfyrwyr. Mae'n gyfle i gyhoeddi'ch gwaith yn enwedig os y'ch chi wedi cyflawni darn sylweddol o waith megis traethawd estynedig.

Mae'r Cylchgrawn hefyd yn coffhau un o gyn fyfyrwyr yr adran, sef Ern Nian Yaw, gan ddyfarnu gwobr flynyddol er cof amdano. Roedd Ern Nian yn fyfyrwr a fu'n allweddol i ddatblygiad y cylchgrawn, ond cafodd ei ladd mewn damwain cyn cyhodi'r gyfrol cyntaf. Dyfarnir y wobwr i awdur yr erthygl sydd yn dangos rhinweddau Ern Nian - gallu academiaidd arbennig, ymroddiad at waith a manylder. Er mwyn canfod mwy, ymwelwch â: <https://auslcj.wixsite.com/aberlawjourna>





# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40  
**GAIR I GALL:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**GAIR I GALL:** Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/ wrth gefn gallwch wneud cais am lety (1 Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

## 7 Dechreuwch bacio!





